Cofion a Chydymdeimlad

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma.

Gyda thristwch y mae'n rhaid nodi sawl colled arall yn yr Ofalaeth. Fe ddaeth y newyddion am farwolaeth Mrs Ceinlys M. Jones (Llansannan) yn fuan wedi i'r rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled gael ei gyhoeddi. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i mab John C. Jones (Llansannan), ei thair merch a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain hwyliog a charedig. Yn yr un modd, cydymdeimlwn â Nesta Davies (Cefn Berain) a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth o golli Pitar Davies oedd yn ŵr, tad a thaid arbennig. Ac yna ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, fe ddaeth y newydd am farwolaeth Mrs Enid Pierce (Llannefydd). Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dilwyn ac Alun Pierce (Llannefydd) a gweddill y teulu wrth iddynt hwythau golli mam a nain annwyl a gofalus. A thrist oeddem hefyd o glywed am farwolaeth Mrs Rhiannon Jones (Llansannan), mam, nain a hen nain addfwyn a charedig. Estynnwn ein cydymdeimlad â Hywel Jones (Llansannan) a gweddill y teulu yn eu colled fawr hwythau. Gweddïwn y bydd y teuluoedd oll yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt yn eu galar a'u hiraeth am anwyliaid.

Anfonwn ein cofion hefyd at y cleifion yn ein plith – Philip Owen (Llannefydd), Margaret Davies (Groes) ac Elis Vaughan (Saron), y tri wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Cofiwn hefyd am Elwyn Williams (Henllan) a Morfudd Jones (Llannefydd) sy'n cael gofal yn yr Inffyrmari ar hyn o bryd. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i'r pump ohonynt ac i bawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn.

Llongyfarchiadau calonnog i Gareth Jones (Henllan) a Katie ar enedigaeth eu mab, Dion Hari. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach.

I ddod

- **Coleg y Bala:**
  - **Aduniad Souled Out** (i bobl ifanc 15-19 oed) Ionawr 31ain - Chwefror 2il.
  - **Chwalfa Chwefror** (8–12 oed) Chwefror 7fed – 9fed. Penwythnos llawn gemau gwirion, hwyl, gweithgareddau, crefft, canu, ymlacio yn yr ystafell chwaraeon, nofio, gwylio ffilm ac i ddysgu mwy am Iesu. Cyfle hefyd i dreulio amser yng nghwmni hen ffrindiau ac i wneud ffrindiau newydd.
  - **Penwythnos Ieuenctid** (Bl. 7-11) Chwefror 21ain – 23ain.

  Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn rhoi ***£20 o ostyngiad i bob unigolyn*** *fydd yn mynd ar y cyrsiau uchod. I archebu lle, cofrestrwch ar-lein: colegybala.org neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur. Bydd angen anfon ffurflen ganiatâd i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan â phosibl.*

Llais Bro Aled

Ionawr 19eg a 26ain, 2020

DILYNWCH NI AR TWITTER:
@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon heddiw. Wrth i ni addoli hefo'n gilydd gan fod yn ymwybodol cymaint o deuluoedd o'n cwmpas sydd mewn galar, gweddïwn ar i'r Arglwydd amlygu ei ddaioni iddynt hwy, ac i ninnau'r un modd. Dyna sail moliant y Cristion, fel y gwelwn yn y Salmau: 'Diolchwch iddo, bendithiwch ei enw. Oherwydd da yw'r Arglwydd; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.' (Salm 100:4-5)

Mae cwestiynau mawr bywyd wedi cael eu gofyn ac yn parhau i gael eu gofyn o genhedlaeth i genhedlaeth. Pam ydym ni yma? Oes yna ffordd i wynebu'r profiadau anodd fydd yn dod i'n rhan? At bwy ddyliwn i droi mewn poen a phryder? Gan amlaf nid cwestiynau sy'n cael eu gofyn yng nghanol sgyrsiau ysgafn wrth basio fyddant, ond cwestiynau sydd yn pwyso ar feddwl nifer ohonom reit yng nghanol stormydd bywyd. Ac er mor anodd yw ystyried y fath bethau, dylem sylweddoli nad ni yw'r cyntaf i ymgodymu â'r fath faterion, er y gall deimlo felly pan ydym yn ein gwendid. Mor hawdd yw anghofio bod yna genedlaethau o bobl wedi ymdrechu i ateb y cwestiynau hyn mewn gwahanol ffyrdd, ac yn enwedig felly i Gristnogion, mor rhwydd yw colli golwg ar y cysuron sydd inni yng Ngair Duw. Ystyriwch er enghraifft y cwestiwn canlynol y mae cymaint o Gristnogion wedi ei ofyn: Beth yw ein hunig obaith mewn bywyd a marwolaeth? Mae cyfieithiad modern o hen ateb (mor bell yn ôl â 1563!) yn nodi fel hyn: Nad ydym yn eiddo i ni'n hunain ond ein bod yn perthyn, enaid a chorff, mewn bywyd a marwolaeth i Dduw ac i'n Gwaredwr Iesu Grist.

Gwelir hyn yn glir yn Salm 100, os cofiwch eiriau adnod 3: 'Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Dduw; ef a'n gwnaeth, a'i eiddo ef ydym, ei bobl a defaid ei borfa.' Rydym i gael cysur o wybod ein bod trwy ffydd yn ddefaid i'r bugail oherwydd bod y Bugail Da wedi ildio'i fywyd er mwyn ein hachub a diddymu'r hyn oedd yn ein gwahanu oddi wrth Dduw. Nid ein hymdrech ni sydd wedi sicrhau bywyd a gobaith tragwyddol i ni, ond haelioni rhyfeddol gras Duw. Yr unig beth yr ydym ni wedi ei wneud yw dod yn waglaw at Iesu a derbyn yn ddiolchgar wrth edifarhau a rhoi'n hunain Iddo. Os byddwn byth â'n gobaith yn pylu oherwydd yr amgylchiadau a wynebwn, cofiwn nad ar chwarae bach y mae Duw yn datgan fod ei bobl yn eiddo iddo am byth, ond ar sail cariad perffaith, cariad drud. 'Oherwydd prynwyd chwi am bris. Felly gogoneddwch Dduw yn eich corff.' (1 Corinthiaid 6:19)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 19eg	➢ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Aneurin yn pregethu.
Mercher – 22ain	➢ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
Iau – 23ain	➢ **Cyfarfod Plant Llannefydd** am 3.15.
	➢ **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Diserth **am 6.30** pryd bydd gwaith yr Henaduriaeth yn cael ei drafod a'r llywyddiaeth yn cael ei drosglwyddo i'r Parch. Ddr Rhodri Glyn.
Sul nesaf –26ain	➢ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu ac yn gweinyddu'r cymun.
Iau – 30ain	➢ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
Gwener – 31ain	➢ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
Sul canlynol – 2il	➢ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

Llannefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

Sul yma – 19eg	➢ Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a'r Ysgol Sul yn cydredeg.
	➢ Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 9.30 ac yn Groes am 10.00 ac yna bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa yn Groes am 11.00.
Sul nesaf –26ain	➢ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Llannefydd am 9.30.
	➢ Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Henllan am 11.00.
Sul canlynol – 2il	➢ Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 9.30 ac yn Groes am 9.45. Bydd Mr Gerallt Jones yn arwain oedfa i'r daith (Llannefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) yn Groes am 10.30.

Peniel, Saron a Nantglyn

Sul yma – 19eg	➢ Bydd y Parch. Eric Greene yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
Sul nesaf –26ain	➢ Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00.
Sul canlynol – 2il	➢ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

Sul yma – 19eg	➢ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a'r Ysgol Sul yn dilyn. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.
	➢ Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00. Bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg.
Llun – 20fed	➢ Cymdeithas Llansannan – Sgwrs a sleidiau 'Mynydda Heriol' yng nghwmni Rhys Dafis yn y Festri am 7.30.
Mawrth – 21ain	➢ Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Festri Llansannan o 1.00-3.00.
Mercher – 22ain	➢ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (19eg),** os gwelwch yn dda.
Sul nesaf –26ain	➢ Bydd Mr Gerallt Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog ac yn Llanfair am 11.00.
	➢ Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00. Bydd Mr Gerallt Jones yn arwain oedfa yno am 11.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydredeg.
Mawrth – 28ain	➢ Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan am 7.30. Croeso i'r holl aelodau.
Mercher – 29ain	➢ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (26ain),** os gwelwch yn dda.
Sul canlynol – 2il	➢ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
	➢ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00.
	➢ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.

Manylion Cyswllt

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 07814 660291

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (5ed), os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.